

# Creu'r miliwn o siaradwyr Cymraeg yn lleol

## Galwadau Cymdeithas yr laith i awdurdodau lleol



#miliwn

[cymdeithas.cymru/miliwn](http://cymdeithas.cymru/miliwn)



# Dw i eisiau creu'r miliwn o siaradwyr Cymraeg yn lleol

## Dw i eisiau:

---

- cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn
- atal yr allfudiad
- galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd

## Dwi'n cefnogi:

---

- Normaleiddio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg
- Cryfhau gweinyddiaeth fewnol Gymraeg
- Normaleiddio defnydd yr iaith wrth ddarparu'r holl wasanaethau yn y sir
- Darparu hyfforddiant iaith dwys i weithwyr y Cyngor
- Cryfhau'r Gymraeg drwy'r system gynllunio a sicrhau bod targedau tai yn seiliedig ar anghenion lleol
- Hyrwyddo economi Gymraeg, a blaenoriaethu buddiannau busnesau bychain lleol
- Cynnal asesiadau o effaith datblygiadau ar yr economi a'r gymuned leol
- Cryfhau democratiaeth leol gan gadw gwasanaethau yn atebol i gynghorwyr lleol
- Cryfhau gweithgareddau diwylliannol Cymraeg a chefnogi mesurau i drosglwyddo'r iaith o fewn teuluoedd
- Hybu a dathlu amrywiaeth a chymdeithas gynhwysol

#miliwn

[cymdeithas.cymru](http://cymdeithas.cymru)

## 1. Cyflwyniad

---

1.1. Mae nifer o bleidiau gwleidyddol, a bellach Llywodraeth Cymru, wedi cefnogi ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg gan gefnogi'r tri nod yn ein gweledigaeth a welir yn 3.1 isod.

1.2. Gofynnwn i ymgeiswyr etholiadau cyngor, pleidiau gwleidyddol a llywodraeth leol gefnogi'r weledigaeth hon wrth ymarfer eu cyfrifoldebau.

1.3. Yn yr oes sydd ohoni, credwn yn ogystal bod hybu a hyrwyddo'r Gymraeg yn gorfod bod yn rhan o ymdrech ehangach i greu cymdeithas sy'n dathlu amrywiaeth ac yn defnyddio'r Gymraeg fel adnodd i gynnwys pawb yn ein cymdeithas.

1.4. Mae nifer o ddatblygiadau polisi a deddfwriaethol genedlaethol yn gosod dyletswydd ar awdurdodau lleol ond hefyd yn cynnig cyfleoedd i awdurdodau lleol drwy weithredoedd blaengar symud ymlaen. Credwn fod darpariaethau Deddf Cynllunio (Cymru) 2015, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, Cynlluniau Strategol y Gymraeg mewn Addysg a Safonau'r Gymraeg yn golygu bod rhaid i gynghorau flaenoriaethu cryfhau'r Gymraeg yn fwy nag erioed o'r blaen.

## 2. Egwyddorion tu ôl i'n cynigion - Pobl a Gofodau

---

**2.1. Mae llwyddiant wrth gynllunio yn dibynnu ar ddwy elfen, mae gan gynghorau swyddogaethau pwysig yn eu cylch, sef pobl a gofodau.**

- i. Mae angen gwella sgiliau iaith ein pobl - ni ellid gwahanu tynged yr iaith o'r byd addysg a chynllunio'r byd gwaith;
- ii. mae angen datblygu a chryfhau cyd-destunau lle mai'r Gymraeg yw iaith naturiol y lleoliad - yn y gwaith, yn y cartref ac yn y gymuned.

## 3. Cynigion Cryno – galwadau cyffredinol

---

**3.1. Galwn ar ymgeiswyr yn yr etholiadau lleol a'r pleidiau gwleidyddol i ymrwmo i:**

- i. cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn
- ii. atal yr allfudiad a chynnal cymunedau ynghyd â sicrhau llwybrau i ddod â Chymry Cymraeg yn ôl i'w cymunedau
- iii. galluogi pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ymhob rhan o fywyd er mwyn sicrhau mai'r Gymraeg yw'r iaith naturiol o'r crud i'r bedd

3.2. Galwn yn ogystal arnynt i fabwysiadu mesurau i:

- i. Normaleiddio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg
- ii. Cryfhau gweinyddiaeth fewnol Gymraeg
- iii. Normaleiddio defnydd yr iaith wrth ddarparu'r holl wasanaethau yn y sir
- iv. Darparu hyfforddiant iaith dwys i weithwyr y Cyngor
- v. Cryfhau'r Gymraeg drwy'r system gynllunio a sicrhau bod targedau tai yn seiliedig ar anghenion lleol
- vi. Hyrwyddo economi Gymraeg, a blaenoriaethu buddiannau busnesau bychain lleol
- vii. Cynnal asesiadau o effaith datblygiadau ar yr economi a'r gymuned leol
- viii. Cryfhau democratiaeth leol gan gadw gwasanaethau yn atebol i gynghorwyr lleol
- ix. Cryfhau gweithgareddau diwylliannol Cymraeg a chefnogi mesurau i drosglwyddo'r iaith o fewn teuluoedd
- x. Hybu a dathlu amrywiaeth a chymdeithas gynhwysol

## **4. Galwadau Polisi**

---

### **4.1. Normaleiddio ac ehangu addysg cyfrwng Cymraeg**

4.1.1. Mae'r gyfundrefn addysg yn ffynhonnell bwysig i greu siaradwyr Cymraeg; y mae'r Llywodraeth a Chomisiynydd y Gymraeg wedi cydnabod hynny. Fodd bynnag, ar lefel genedlaethol mae 80% o blant yn cael eu hamddifadu o'r gallu i siarad ac mae canran uchel ym mhob un sir yn dilyn trac 'ail iaith' ac yn sefyll arholiad eilradd 'ail iaith' - o oddeutu 19% yng Ngwynedd i 96% yn Sir Fynwy. Ni ddylai'r system addysg adael yr un plentyn yn y wlad heb y gallu i weithio a chyfathrebu'n rhugl drwy'r Gymraeg.

4.1.2. Derbyniwn y bydd gan gynghorau cynlluniau strategol y Gymraeg mewn addysg eu hunain a bod y cyd-destun yn amrywio o ardal i ardal, ond credwn fod angen i bob sir dros gyfnod nad yw'n hirach na phum mlynedd:

- i. mabwysiadu polisi o gynyddu'r canran o bynciau a astudir drwy'r Gymraeg hyd y nes bod pob un sefydliad addysg yn darparu, fan leiaf, 70% o'r addysg drwy gyfrwng y Gymraeg
- ii. cefnogi polisi Llywodraeth Cymru o ddileu 'Cymraeg Ail iaith' yn y sir ac, yn lle, sicrhau bod pob disgybl yn astudio ar gyfer yr un cymhwyster Cymraeg erbyn, fan hwyraf, 2021;
- iii. sefydlu, neu ehangu, canolfan hwyrddyfodiaid y sir
- iv. sefydlu rhaglen cyfnewid athrawon gyda gwledydd eraill yn enwedig rhai gydag ieithoedd lleiafrifol er mwyn: (i) uwchraddio sgiliau ein gweithlu; (ii) manteisio ar sgiliau gwledydd eraill; a (iii) gwneud cynnydd ar wella addysg ieithoedd tramor
- v. darparu, neu barhau i ddarparu, holl addysg cyn-ysgol a'r cyfnod sylfaen drwy gyfrwng y Gymraeg yn unig

- vi. sicrhau bod trafndiaeth yn rhad ac am ddim i ysgolion a sefydliadau addysg eraill lle dysgir, fan leiaf, 70% o'r pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- vii. mabwysiadu polisi o beidio â chaniatáu'r un ysgol na sefydliad addysg newydd agor gyda chanran is o addysg cyfrwng Cymraeg na 50%, neu drothwy uwch mewn siroedd lle mae mwyafrif yr ysgolion yn rhai cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog;

4.1.3. Dylai Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg pob sir adlewyrchu uchelgais Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg. Yn ogystal, dylid cefnogi rhaglen hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant mewn swydd, er mwyn sicrhau bod y gweithlu a'r system yn barod ar gyfer y cwricwlwm newydd a ddaw i rym o 2018 ymlaen ynghyd â disodli Cymraeg Ail Iaith gydag un cymhwyster cyfun Cymraeg ar gyfer pob disgybl erbyn 2021.

## **4.2. Normaleiddio defnydd y Gymraeg wrth ddarparu gwasanaethau**

4.2.1 . Gofynnwn i bob awdurdod cyhoeddus weld y Safonau fel isafswm, gan edrych i adeiladu arnynt er mwyn normaleiddio a chynyddu defnydd y Gymraeg yn allanol a mewnol, yn enwedig wrth ddarparu gwasanaethau megis gwasanaethau cymdeithasol.

## **4.3. Hyfforddiant iaith dwys i weithwyr**

4.3.1. Mae Safonau'r Gymraeg yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod lleol i gynnig gwersi Cymraeg i'w cyflogai. Fodd bynnag, nid oes canllawiau o ran sut, ac i ba raddau, y dylid cynnig gwersi Cymraeg.

4.3.2. Credwn y dylai pob awdurdod lleol:

- i. bob blwyddyn anfon canran sylweddol o'i gweithlu ym mhob maes gwaith, nad ydynt yn rhugl nac yn gallu gweithio drwy'r Gymraeg, ar gyrsiau dwys Cymraeg a gymeradwyir gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Cenedlaethol; a
- ii. sefydlu rhaglen dysgu Cymraeg yn y gwaith 'Hyfforddi'r Hyfforddwyr', a gyfeirir ati yn y ddogfen 'miliwn o siaradwyr Cymraeg'<sup>1</sup>, er mwyn cynyddu'n sylweddol y nifer sy'n dysgu'r iaith;
- iii. Blaenoriaethu rhaglen hyfforddiant dwys er mwyn sicrhau bod, fan leiaf, yr adrannau a gweithluoedd canlynol yn gweithredu drwy'r Gymraeg:
  - Hyfforddwyr chwaraeon Cymru sy'n hyfforddi pobl o dan 18 mlwydd oed;
  - Hyfforddwyr chwaraeon newydd eu hachredu;
  - Gweithwyr yn addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant
  - Gweithwyr ieuentid
  - Gweithwyr gofal a chymdeithasol

<sup>1</sup> <http://cymdeithas.cymru/miliwn>

#### **4.4. Cryfhau gweithluoedd Cymraeg a gweinyddu'n fewnol yn Gymraeg**

4.4.1. Dylai cynghorau anelu at ddechrau, ehangu, neu barhau i weithio'n fewnol drwy gyfrwng y Gymraeg.

4.4.2. Mae rhai cyrff yn gweithio'n fewnol yn Gymraeg. Dyna ddylai fod nod pob cyngor sir er mwyn sicrhau defnydd uchel o'r Gymraeg yn fewnol.

4.4.3. Yn ogystal dylai pob cyngor:

- i. hybu sefydliadau sy'n gweithredu drwy'r Gymraeg yn unig yn fewnol ac allanol
- ii. cynnig, neu gynyddu, ei ddarpariaeth o brentisiaethau cyfrwng Cymraeg
- iii. mabwysiadu polisi bod y Gymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer pob swydd, gan ddisgwyl, fan leiaf, sgiliau ar lefel 1 ALTE ar gyfer pob swydd a bod dyrchafu yn dibynnu ar symud i fyny'r lefelau gallu iaith.

#### **4.5. Hybu'r Gymraeg drwy'r gyfundrefn eiddo a chynllunio**

4.5.1. Credwn y dylai pob awdurdod lleol wneud y Gymraeg a'i hyfywedd yn rhan ganolog o'u cynlluniau datblygu lleol a pholisi.

4.5.2. Mae Deddf Cynllunio (Cymru) 2015 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gwneud y Gymraeg yn fwy canolog i'r gyfundrefn gynllunio nag erioed o'r blaen.

4.5.3. Dylai pob cyngor:

- i. hyfforddi cynghorwyr, swyddogion a'r gymuned ynghylch pwerau i wrthod neu dderbyn ceisiadau ar sail eu heffaith iaith;
- ii. atgoffa ceiswyr cynllunio o'r grymoedd i wrthod neu dderbyn ceisiadau;
- iii. paratoi a dosbarthu canllaw i bob ceisydd cynllunio sy'n amlinellu'r camau o ran statws i'r Gymraeg, fforddiadwyedd a materion eraill y dylent er mwyn ddatblygu a diogelu'r Gymraeg ym mhob ardal drwy'r gyfundrefn gynllunio;
- iv. asesu effaith iaith a chymunedol pob cais cynllunio, gan ddarparu hyfforddiant i swyddogion ar sut i'w cynnal;
- v. amddiffyn a hyrwyddo enwau Cymraeg
- vi. blaenoriaethu cefnogaeth i gwmnïau lleol a bychain wrth iddynt fynd drwy'r broses gynllunio

4.5.4. Ymhellach, credwn y dylai pob awdurdod lleol, drwy eu cynlluniau datblygu lleol a pholisi:

- i. Sicrhau bod targedau tai'n adlewyrchu anghenion pobl sy'n byw yn lleol, sy'n seiliedig ar waith ymchwil manwl yn hytrach nag amcanestyniadau poblogaeth hanesyddol
- ii. Sefydlu Anghenion Lleol fel egwyddor eu cynllun datblygu lleol a pholisiau cysylltiedig;
- iii. Sefydlu'r Hawl i Rentu ar gyfer pobl sy'n byw yn lleol am bris fforddiadwy;

- iv. Rhoi'r cyfle cyntaf i brynu eiddo i bobl leol fel ffordd o reoli pris eiddo;
- v. Gosod amodau ar dai er mwyn eu clustnodi ar gyfer pobl sy'n byw yn lleol;
- vi. Sicrhau rhagor o ystyriaeth i gynnal bywyd cymunedol yn y gyfundrefn cynllunio ac eiddo;
- vii. Sicrhau bod rhagdybiaeth mai ysgolion cyfrwng Cymraeg yn unig fydd yn cael eu hadeiladu drwy unrhyw 'fudd gynllunio';
- viii. Mabwysiadu polisi o ddiogelu a hybu enwau Cymraeg ar gyfer lleoedd, tirwedd strydoedd, tai a chymunedau;
- ix. Ymrwymo i godi treth cyngor ar ail gartrefi o 100% yn ychwanegol at y gyfradd arferol;
- x. Mabwysiadu cynllun i ddod â stoc tai gwag i mewn i ddefnydd ac i ddwylo cyhoeddus

#### **4.6. Hyrwyddo economi Cymraeg a chynaliadwy**

4.6.1. Mae hybu a chefnogi economi cryf yn rhan ganolog o unrhyw ymdrech i atal yr allfudiad o'n cymunedau. Credwn y dylai cyngorau gymryd y camau canlynol er mwyn cryfhau'r economi'n lleol:

- i. Blaenoriaethu cwmnïau lleol a bychain wrth ystyried ceisiadau grantiau
- ii. Asesu effaith ar y gymuned a'r economi lleol unrhyw ddatblygiadau neu gais am grant;
- iii. Sefydlu clystyrau busnesau Cymraeg<sup>2</sup>, gan gynnig gofodau newydd i'w meithrin a'u hyrwyddo;
- iv. Dim ond cynnig cymorth i fusnesau gydag amodau clir o ran darpariaeth Gymraeg, gan sicrhau y byddent yn cydymffurfio â dyletswyddau Safonau'r Gymraeg yn lleol
- v. Blaenoriaethau cymorth i fusnesau a fyddai yn hyrwyddo'r Gymraeg yn rhagweithiol;
- vi. Mabwysiadu mesurau i sicrhau bod rhagor o gytundebau a chaffael cyhoeddus yn mynd i fusnesau lleol, yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol;

#### **4.7. Hyrwyddo'r Gymraeg yn y gymuned**

4.7.1. Mae nifer o bolisiau y gall awdurdodau lleol eu mabwysiadu er mwyn cynyddu defnydd y Gymraeg ar lefel gymunedol, gan gynnwys:

- i. Clustnodi 1% o gyllideb yr awdurdod ar gyfer prosiectau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg a gosod amod ar gyrff a ariennir gan y cyngor i ddilyn yr un polisi;
- ii. Sefydlu Cronfa Ariannu Cynnal Gwasanaethau ac Adnoddau Cymunedol a fyddai'n cynnig symiau cymharol fach o arian i grwpiau cymunedol er mwyn cynnal gwasanaethau a gofodau lle mai'r Gymraeg yw prif iaith y lleoliad neu grŵp;
- iii. Diogelu ysgolion gwledig drwy gefnogi rhagdyb yn erbyn eu cau, a chefnogi ffederaleiddio yn lle;

<sup>2</sup> Ceir rhagor o wybodaeth am y syniad yma yn Strategaeth Economaidd Cymdeithas yr Iaith: <http://cymdeithas.cymru/sites/default/files/iaith%20gwaith%20DIGIDOL.pdf>

- iv. Gosod amodau grant ar fusnesau a sefydliadau eraill i gynnig pob gwasanaeth yn Gymraeg ac anelu at weinyddu'n fewnol drwy'r Gymraeg;
- v. Cynnig hyfforddiant Cymraeg i wasanaethau a drwyddeddir gan yr awdurdod, megis gyrwyr bysiau a thacsi, yn ogystal â sicrhau sgiliau lefel 1 ATLE ar eu cyfer;
- vi. Cefnogi mentrau cymunedol sy'n cynnig gofodau cymdeithasol lle mai'r Gymraeg yw prif iaith y lleoliad;
- vii. Dim ond cefnogi drwy hysbysebion neu dulliau eraill cyfryngau, megis radio, teledu a phapurau newyddion lleol sy'n gyfrwng Gymraeg neu ddwyieithog
- viii. Cefnogi sefydlu llety penodedig Cymraeg ar gyfer myfyrwyr ym mhob prifysgol yng Nghymru wedi ei fodelu ar neuadd Pantycelyn gyda'r asedau yn nwylo'r Coleg Cymraeg neu brifysgolion
- ix. Hyfforddi gweithlu ieuencid a chwaraeon Cymraeg yn ddwys er mwyn darparu holl weithgareddau hamdden ac all-gyrsiol drwy'r Gymraeg

#### **4.8. Cryfhau democratiaeth leol**

4.8.1. Credwn fod nifer o ddatblygiadau yn tanseilio democratiaeth leol o lymder i allanoli gwasanaethau. Credwn y dylai awdurdodau lleol hybu dulliau sy'n cryfhau ymwneud democrataidd megis:

- i. cyllidebu cymunedol,
- ii. cyfarfodydd cyhoeddus ystyrlon
- iii. cyd-lunio polisiau gyda'r gymuned
- iv. cynnal addysg wleidyddol am brosesau democrataidd

4.8.2. Rydym yn gwrthwynebu y tueddiad o leihau cyfrifoldeb awdurdodau lleol drwy allanoli gwasanaethau a gweithredu'n rhanbarthol drwy gonsortia a dulliau eraill. Galwn ar i lywodraeth leol amddiffyn llais democratiaeth ac atebolrwydd lleol.

#### **4.9 Hybu a dathlu amrywiaeth**

4.9.1. Rydyn ni, fel mudiad, yn credu mewn creu cymdeithas gynhwysol, sy'n croesawu pobl i'n gwlad waeth beth eu cefndir o ran iaith, cyfeiriadedd rhywiol neu genedligrwydd. Dylai'r Gymraeg a Chymru gynnwys a chroesawu pawb sy'n dod i'n gwlad.

4.9.2. Dylai awdurdodau lleol gyd-weithio ag eraill yn ogystal â gweithredu mewn nifer o ffyrdd i hybu'r cynhwysiant gymdeithasol ac i ddathlu amrywiaeth, gan gynnwys:

- i. croesawu ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches i'w hardaloedd;
- ii. cynorthwyo cynllun i ddarparu gwersi Cymraeg yn rhad ac am ddim ar gyfer ffoaduriaid, mudwyr a cheiswyr lloches;
- iii. cefnogi'r cynllun 'dinasoedd lloches' er mwyn gwella'r croeso, dealltwriaeth a mynediad i wasanaethau y mae eu hangen ar ffoaduriaid a cheiswyr lloches



#### **4.10. Hybu a hyrwyddo gweithgareddau diwylliannol**

4.10.1. Dylai awdurdodau lleol gryfhau eu cefnogaeth ar gyfer y celfyddydau, cerddoriaeth, chwaraeon a llyfrgelloedd, gan eu defnyddio fel dull i hyrwyddo'r Gymraeg.

### **5. Galwadau Eraill**

---

5.1. Rydym yn galw ar awdurdodau lleol i gymryd pob cam posibl i wrthwynebu llymder a gwneud safiad yn erbyn toriadau.

5.2. Galwn ar i gynghorau fuddsoddi'n foisol drwy, er enghraifft, eu cynlluniau pensiwn drwy beidio â buddsoddi yn y diwydiant arfau, mentrau sy'n peryglu hinsawdd y byd, ynghyd â chefnogi'r ymgyrch o foicotio, dihartiad a sancsiynau (BDS) yn erbyn Israel hyd nes ei fod yn cydymffurfio â chyfraith ryngwladol a hawliau Palesteinaidd.

5.3. Galwn ar i gynghorwyr wrthwynebu ynni niwclear ar y cyd ag eraill drwy rwydweithiau gwrth-ynni niwclear.

**Uned Cyswllt y Cynulliad, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg  
Mawrth 2017**

**#miliwn**

**cymdeithas.cymru/miliwn**